

TRAFODAETH CAERFFILI



'Dywedoch chi... Gwrandawom ni'

Mae cyngor bwrdeistref sirol Caerffili wedi cymeradwyo ei gyllideb ar gyfer 2019/20 ac wedi ailystyried nifer o doriadau a gynlluniwyd yn dilyn adborth gan drigolion.

Roedd rhestr o arbedion arfaethedig gwerth cyfanswm o £14.6 miliwn yn destun cyfnod o ymgynghori cyhoeddus dros y misoedd diwethaf. Fodd bynnag, roedd setliad ariannol ychydig yn well na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i'r cyngor i ailystyried ychydig o'r arbedion hyn.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd, y Cyng. Barbara Jones, "Mae'r rhain yn adegau gwirioneddol anodd, ond rydym yn parhau i wneud ein gorau i ddiwallu anghenion a dyheadau ein cymunedau, er gwaethaf yr heriau ariannol enfawr yr ydym yn eu hwynebu. Rydym wedi dangos yn eglur bod y cyngor hwn yn barod i wrando ac ymateb mewn ffordd bositif i farn y gymuned leol."

Mae'r arbedion arfaethedig a fydd yn cael eu gohirio yn cynnwys:

- **Diddymu gwasanaeth Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol CBSC** - bydd nawr ostyngiad i'r tîm o 9 i 6 warden.
- **Lleihau gwasanaeth 'Pryd ar Glud'** - bydd hyn yn awr yn cael ei ystyried fel rhan o adolygiad ehangach Gwasanaeth Arlwyio'r cyngor.
- **Cau 2 ganolfan ailgylchu cartrefi** - bydd y mater yn cael ei ohirio hyd nes y bydd adolygiad gwastraff cynhwysfawr yn dod i ben.
- **Cyflwyno taliadau trin llygod mawr** - wedi'i ohirio.
- **Tori cyllid a chau Canolfannau Cymunedol** - wedi'u gohirio am flwyddyn i ganiatáu cyfnod rhybudd o 12 mis pryd y bydd arian yn cael ei dynnu'n ôl.
- **Tynnu'r arian yn ôl ar gyfer cynlluniau cymunedol fel Llawr Sglefrio lâ Bargod a Splash Pad Senghenydd** - wedi'i ohirio am flwyddyn i ganiatáu cyfnod rhybudd o 12 mis pryd y bydd arian yn cael ei dynnu'n ôl.

Ychwanegodd y Cyng. Dave Poole, Arweinydd y Cyngor, "Mae'n amlwg o'r adborth bod y trigolion yn teimlo bod rhai o'r cynigion yn annymunol - fel ag y gwnaeth fy nghydweithwyr yn y Cabinet a minnau. Rydyn ni wedi gwrandao, wedi ymateb ac, am y tro, wedi gallu cymryd nifer o'r arbedion hyn oddi ar y bwrdd."

Fel rhan o osod y gyllideb, cymeradwywyd cynnydd o 6.95% yn nhreth y cyngor ar gyfer 2019/2020 hefyd. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £1.41 yr wythnos mewn taliadau treth y cyngor yn seiliedig ar eiddo Band D.

Yn y cyfarfod, cymeradwyodd y cynghorwyr hefyd ddyraniad o £5 miliwn o gronfeydd wrth gefn y cyngor tuag at arian cyfatebol Ysgolion yr 21ain Ganrif a £1.2 miliwn ar gyfer nifer o gynigion adfywio cyffrous i hybu ffyniant ar draws y fwrdeistref sirol. Fe wnaethon nhw hefyd gymeradwyo rhaglen gyfalaf uchelgeisiol o £14.5 miliwn ar gyfer 2019/20 a fydd yn darparu ystod o fuddion i gymunedau ar draws yr ardal.



Cyng. Dave Poole
Arweinydd y Cyngor

GORFODI PARCIO SIFIL

Atebion i'ch cwestiynau


Beth yw Gorfodi Sifil ar Barcio (GPS)?

Mae GSB yn golygu trosglwyddo pwerau o'r heddlu i'r awdurdod lleol. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cymryd y cyfrifoldeb am orfodi parcio o Heddlu Gwent yn 2019.



Pryd fydd y newid yn digwydd?

Bydd y cyngor yn gyfrifol am GPS o
Ddydd Llun 8 Ebrill, 2019



Pwy sy'n gyfrifol tan y dyddiad hwnnw?

Bydd y cyfrifoldeb am orfodi traffig a pharcio yn aros gyda Heddlu Gwent tan y dyddiad newid.

Pam gwneud y newid?

Bydd trosglwyddo pwerau yn caniatáu i'r cyngor ddarparu dull cydlynol a chysion o orfodi rheoliadau traffig a bydd yn helpu i wella diogelwch ar y ffordd, llif traffig a lleihau rhwystrau.

Ydi GPS yn digwydd mewn ardaloedd eraill?

YDI: Gwent yw'r unig ardal heddlu yng Nghymru ar hyn o bryd i barhau i orfodi parcio, a bydd trosglwyddo pwerau i'r cyngor yn dod â Chaerffili a phob awdurdod lleol arall yng Ngwent yn unol â gweddill y wlad.

A fyddwn yn gweld wardeniaid newydd yn patrolio'r strydoedd?

BYDDWCH: Bydd Swyddogion Gorfodi Sifil newydd, a gyflogir gan y cyngor, yn ymgymryd â dyletswyddau gorfodi mewn trefi a phentrefi ar draws bwrdeistref sirol Caerffili.

Pa bwerau fydd ganddynt?

Os canfyddir bod cerbyd wedi'i barcio'n groes i unrhyw gyfyngderau parcio, gall y Swyddogion Gorfodi Sifil gyhoeddi Hysbysiad Tâl Cosb.

Sawl warden sy'n mynd i gael ei gyflogi?

I ddechrau, byddwn yn cyflogi 10 swyddog wrth i ni gyflwyno'r cynllun ar draws yr ardal, ond gallai hyn newid yn y dyfodol.

Faint fydd y ddirwy?

Bydd yr Hysbysiad Tâl Cosb yn £70, wedi'i ostwng i £35 os caiff ei dalu o fewn 14 diwrnod ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol (a £50 a £25 yn y drefn honno ar gyfer troseddau llai).

Beth fydd yn digwydd i'r arian?

Mae deddfwriaeth yn pennu y bydd unrhyw arian dros ben a grëir trwy'r Gorfodi Parcio Sifil yn cael ei ail-fuddsoddi yn y rhwydwaith priffyrdd a chludiant.

A oes proses apelio?

OES: Os ydych chi'n dymuno herio Hysbysiad Tâl Cosb, bydd gweithdrefn apelio ffurfiol i'w ddilyn. Bydd manylion am hyn yn cael eu cyfleu ar adeg y newid (a byddant ar gael ar y Hysbysiad Tâl Cosb ei hun ac ar wefan CBSC).

A fydd y Swyddogion Gorfodi Sifil yn targedu lleoliadau penodol?

Bydd y mesurau newydd yn caniatáu i'r cyngor ganolbwyntio ar fuddiannau trigolion, busnesau lleol a gweithredwyr cludiant trwy dargedu parcio preswyl a chanol y dref a chamddefnyddio mathau penodol o barcio megis mannau parcio i'r anabl, baeau aros cyfyngedig, baeau llwytho, baeau parcio i drigolion, arosfannau bysiau, llinellau igam ogam, ysgolion a llinellau melyn dwbl.

Pa lwfans sydd ar gael i Ddeiliaid Bathodynau Glas?

Caniateir i ddeiliaid bathodynau glas barcio mewn unrhyw un o'r lleoliadau ar y stryd canlynol am gyfnod diderfyn, oni bai bod arwyddion yn dweud fel arall:



- Mannau parcio i bobl anabl
- Trwydded parcio i breswylwyr
- Mannau parcio ag aros cyfyngedig ar y stryd

Caniateir i ddeiliaid bathodynau glas barcio ar linellau melyn sengl neu ddwbl (ac eithrio pan fo gwaharddiad ar lwytho neu ddadlwytho) lle na fyddai'n achosi rhwystr neu berygl i ddefnyddwyr eraill y ffordd am gyfnod nad yw'n fwy na thair awr. O ran parcio oddi ar y stryd, mae polisi presennol CBSC yn caniatáu i ddeiliaid Bathodynau Glas barcio am 1 awr ychwanegol ar ôl i'r amser sydd ar y tocyn ddod i ben ym mhob maes parcio talu ac arddangos y Cyngor, ond dim ond os mae'r Bathodyn Glas yn cael ei arddangos yn gywir. (Dylai deiliaid Bathodynau Glas bob amser edrych am arwyddion mewn meysydd parcio sy'n nodi'r trefniadau lleol sydd mewn grym).

www.caerphilly.gov.uk/cpe

am ragor o wybodaeth a chyngor.



Mae cyngor Caerffili, fel pob awdurdod lleol arall ledled Cymru, yn wynebu pwysau ariannol sylweddol gan fod ein cyllideb yn parhau i ostwng, tra bod y galw am wasanaethau allweddol fel gofal cymdeithasol yn cynyddu.

2022 > CBSC >>> Ail-lunio'r dyfodol

Mae'n amlwg y bydd yn rhaid inni wneud pethau'n wahanol yn y dyfodol os ydym am amddiffyn gwasanaethau rheng flaen rhag effaith lawn toriadau yn y gyllideb a diwallu anghenion cynyddol ein cymuned. Bydd llawer o waith yn digwydd dros y misoedd nesaf i helpu i ailddiffinio siâp y cyngor wrth inni ddechrau ar daith o drawsnewid. Rydym wedi gosod targed o 2022 i wneud y newidiadau ac mae'n bwysig bod pobl leol yn chwarae rhan allweddol yn y broses hon.

"Yn syml, nid yw'r sefyllfa bresennol yn opsiwn gan na allwn wneud pethau mwyach fel yr ydym ni wedi'i wneud o ganlyniad i doriadau ar gyllidebau a phwysau cynyddol." Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cyng Dave Poole

"Bydd CBSC yn llai, yn fwy syml ac yn darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol. Mae angen inni fod yn fwy hyblyg ac effeithlon, croesawu technolegau newydd ac arloesedd, archwilio mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithio ac ystyried ffyrdd newydd o gynhyrchu incwm. Ein mantra newydd yw 'Calon Gymdeithasol – Pen Masnachol' ac mae hyn yn adlewyrchu ein dymuniad i gynnal ein hegwyddorion cymdeithasol, gan gydnabod bod angen inni, er mwyn goroesi, fabwysiadu meddylfryd mwy masnachol yn y ffordd yr ydym yn gwneud busnes."

"Bydd ymgysylltu â'r gymuned yn rhan allweddol o'r broses hon gan ein bod am wneud hyn gyda chymorth llawn ein trigolion, ein busnesau a'n partneriaid allweddol eraill."

"Mae'r rhain yn adegau anodd i lywodraeth leol, ond mae hefyd yn gyfle i ni groesawu newid a datblygu ffordd newydd o ddarparu gwasanaethau'r cyngor er budd pawb."



Hwb ariannol ar gyfer gofal plant

Bydd ysgolion a lleoliadau gofal plant ar draws y fwrdeistref sirol yn elwa o fwy na £5.1 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu ac ymestyn darpariaeth gofal plant newydd ac estynedig.

Y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod lleoliadau gofal plant newydd yn cael eu datblygu ledled Cymru fel rhan o fuddsoddi gwerth £60 miliwn i helpu i gyflawni ei Gynniig Gofal Plant arloesol.



Croesawodd y Cyng. Philippa Marsden, Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad, y newyddion, "Bydd yr arian hwn yn caniatáu i fwy o'n hysgolion weithio gyda'r sector gofal plant i ddatblygu lleoedd gofal plant o ansawdd uchel i helpu sicrhau bod plant lleol yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd. Mae'r chwistrelliad cyllido diweddaraf hwn yn dilyn y buddsoddiad diweddar o £6 miliwn ar gyfer darpariaeth yr Iaith Gymraeg, yn ogystal â llwyddiant parhaus ein prif brosiectau Ysgolion yr 21ain ganrif.

"Rwy'n siŵr y bydd rhieni ar draws y fwrdeistref sirol yn croesawu hyn, a'r holl ddatblygiadau positif eraill, a fydd o fudd i'r disgyblion am flynyddoedd lawer i ddod."

Mae manylion dyraniad cyllid Caerffili yn cynnwys:

Cwmcarn	Cwm Gwyddon	£695,748
Bedwas, Tretomos a Machen	Ysgol Cyfrwng Cymraeg Newydd	£695,748
Caerffili	Ysgol Gynradd Y Twyn	£795,748
Bedwas	Ysgol Fabanod Bedwas	£248,770
Caerffili	Clwb Meithrin Y Castell	£170,231
Caerffili	Ysgol Gynradd Cwrt Rawlin	£508,874
Abertridwr	Ysgol Fabanod Cwmaber	£50,000
Pengam / Trelyn	Gofal dydd Cyfrwng Cymraeg	£695,748
Oakdale	Ysgol Gynradd Rhiw Syr Dafydd	£710,748
Nelson	Ysgol Fabanod Llanfabon	£403,374
Ar draws ardal CBSC	Cynllun Grantiau Bach	£136,000

Myfyrdod tawel mewn amgylchoedd urddasol

Mae Gwasanaeth Profedigaeth y Cyngor yn cynnal arolwg o'r holl fynwentydd sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor ar draws y fwrdeistref sirol i asesu beddau sydd wedi'u personoli gydag eitemau anawdurdodedig.

Mae'r cyngor wedi mabwysiadu polisi 'bedd lawnt', sy'n anelu at sicrhau bod pob mynwent drefol yn ymddangos yn ddaclus, wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Ystyrir bod eitemau megis rheiliau, cyrbiau congrid, coed/llwyni, goleuadau solar, clychau gwynt a strwythurau eraill yn anawdurdodedig ac nid ydynt yn cael eu caniatáu ar fedd lawnt o fewn unrhyw un o fynwentydd y cyngor.

Meddai'r Cyng. Nigel George, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth, "Credwn y dylai mynwent fod yn lle i fyfyrion'n dawel mewn amgylchoedd urddasol sydd wedi eu cynnal a'u cadw'n dda, ac mae angen inni sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull cyson yn y modd yr ydym yn rheoli ein safleoedd."

Os nodir bod gan fedd eitemau anawdurdodedig, bydd y cyngor yn cysylltu â'r perchennog sydd â'r Hawliau Claddu unigryw ac yn rhoi 28 diwrnod iddynt gael gwared ar yr eitemau anawdurdodedig. Os na chaiff yr eitemau eu symud o fewn yr amser hwn, mae'r cyngor yn cadw'r hawl i gael gwared arnynt ac ni fydd yn derbyn unrhyw atebolrwydd am ddifrod neu golled.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch 01443 811457



Uchelgais a rennir i wella addysg

Mae'r cyngor wedi lansio strategaeth uchelgeisiol i helpu i sicrhau bod pob person ifanc yn y fwrdeistref sirol yn cyflawni'r canlyniadau addysgol gorau posibl.

Cymeradwywyd strategaeth cyrhaeddiad newydd, o'r enw "Uchelgeisiau a Rennir: cydweithio i gyflawni'r canlyniadau gorau i'n pobl ifanc", gan Gabinet y Cyngor yn gynharach y mis hwn.

Mae'r ddogfen yn nodi sut y bydd y cyngor yn gweithio gydag ysgolion a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i gyflwyno gweledigaeth glir ar gyfer gwella cyrhaeddiad a chyflawniad.



Mae rhai o'r blaenoriaethau allweddol yn y strategaeth yn cynnwys:

- Gwella canlyniadau ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 4 a 5.
- Gwella perfformiad bechgyn a disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.
- Adeiladu ar y cynnydd yn y presenoldeb diweddar.
- Lleihau nifer y gwaharddiadau ar draws ysgolion uwchradd.
- Canolbwyntio ar wella safonau llythrennedd, yn enwedig ym mlynnyddoedd 7, 8 a 9.
- Gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

CYFNEWIDFA TRAFNIDIAETH 'WERDD'

Mae'r Cyngor wedi rhoi croeso cynnes i'r newyddion y bydd Stagecoach yn cyflawni un o fuddsoddiadau unigol mwyaf Ewrop mewn bysiau trydan er budd Caerffili, ar ôl sicrhau cyllid grant o £2.9 miliwn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.




Mae'r cyhoeddiad yn gam pwysig ymlaen yn y gydweledigaeth i sicrhau bod Caerffili ymhlith cyfnewidfeydd trafniadaeth gwyrddaf y wlad.

Cyhoeddodd yr Adran Drafniadaeth fod y fenter yn un o'r enillwyr mwyaf yn y gyfran ddiweddaraf o gyllid o dan y Cynllun Bysiau Allyriadau Isel Iawn, sydd â'r nod o leihau allyriadau a sicrhau teithiau glanach a gwyrddach.

Bydd Stagecoach yn buddsoddi £3.6 miliwn yn y prosiect arloesol, sy'n cael ei gefnogi gan y Cyngor, Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru. Bydd y buddsoddiad cyfun o £6.5 miliwn yn darparu ffylod newydd o 16 o fysiau allyriadau sero a'r isadeiledd cysylltiedig yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Mae disgwyl i'r bws trydan unllawr cyntaf ddechrau gwasanaeth yn 2020, gan helpu rhoi hwb i ansawdd aer lleol a diwydiant gweithgynhyrchu'r Deyrnas Unedig.

Meddai Dirprwy Arweinydd y Cyngor, y Cyng. Sean Morgan, "Dyma newyddion arwyddocaol, ac mae'n gam pwysig ymlaen yn ein cydweledigaeth i sicrhau bod Caerffili ymhlith cyfnewidfeydd trafniadaeth gwyrddaf y wlad.



"Mae ein cynlluniau uchelgeisiol i arwain y ffordd yn y Deyrnas Unedig, drwy gyflawni strategaeth trafniadaeth gynaliadwy, yn dechrau dwyn ffrwyth; a rhaid i ni ganmol ein partneriaid, Stagecoach, am eu hymrwymiad a'u buddsoddiad – yn ogystal â'r hyn gan yr Adran Drafniadaeth. Mae'n amlwg bod gennym gydweledigaeth i sicrhau bod Caerffili, wrth ganol rhanbarth y Cytundeb Dinesig, ymhlith canol trefi gwyrddaf y wlad.

Yn ddiweddar, cafodd Strategaeth Cerbydau Trydan newydd ei chymeradwyo gan y Cyngor. Mae'r Strategaeth yn amlinellu dyheadau'r Cyngor i ddarparu isadeiledd newydd ar gyfer cerbydau trydan ar draws yr ardal.

Rhaglen fawr i wella cartrefi ar y trywydd iawn

Mae rhaglen gwella tai cyngor, sydd werth £220 miliwn, ar y trywydd iawn i fodloni'r terfyn amser ym mis Rhagfyr 2020.

Y farn hon yw un o ganfyddiadau allweddol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn dilyn adolygiad diweddar o raglen Safon Ansawdd Tai Cymru y cyngor.

Croesawodd Arweinydd y Cyngor, y Cyng. Dave Poole yr adroddiad, "Rydym wedi bod yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod y rhaglen ar darged i'w chwblhau erbyn y terfyn amser cytunedig. Mae'r canfyddiadau diweddaraf hyn gan SAC yn dangos hyder annibynnol ein bod ar y trywydd iawn i gyflwyno'r rhaglen SATC iawn erbyn Rhagfyr 2020."

Ychwanegodd y Cyng. Lisa Phipps, Aelod Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd, "Rydym eisoes wedi trawsnewid nifer o gartrefi ar draws y fwrdeistref sirol diolch i'n rhaglen SATC gyfredol ac mae'r adborth gan drigolion wedi bod yn gadarnhaol iawn. Hoffwn ddiolch i'r holl staff sy'n allweddol wrth gyflawni'r gwaith gwella ac rydym yn awr yn edrych ymlaen at gwblhau'r cynllun llawn yn llwyddiannus."

Bydd y rhaglen SATC yn gweld y rhan fwyaf o gartrefi tenantiaid y cyngor a'u cymunedau lleol yn cael eu trawsnewid; o waith ailwampio eiddo yn fewnol ac yn allanol, i wella'r amgylchedd ehangach. Hyd yn hyd, mae 82% o eiddo'r cyngor wedi cyrraedd SATC yn fewnol ac mae 66% yn cwrdd â'r safon yn allanol.

Yn ogystal â gwelliannau ffisegol, mae'r buddsoddiad hefyd yn cael ei ddefnyddio er mwyn cyflwyno manteision ehangach i gymunedau lleol. Mae manteision ychwanegol hefyd yn cael eu cyflwyno o ganlyniad i'r buddsoddiad yn cynnwys creu 71 o swyddi amser llawn parhaol drwy benodi contractwyr i helpu cyflawni'r rhaglen ac mae 43 o gyfleoedd amser llawn parhaol wedi'u creu gan y Cyngor. Mae cyfanswm o 58 o gyfleoedd prentisiaeth hefyd wedi'u creu gan y Cyngor, a'i gontractwyr, ers dechrau'r rhaglen SATC.

£220
miliwn ar
wella tai
cyngor



Cynllun prentisiaethau CBSC yn cychwyn

Mae prentisiaid newydd eu penodi Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn awyddus i gychwyn, gyda chyfleoedd gwyb ar draws ystod o feysydd gwasanaeth sydd ar gael iddynt.

Am ddwy flynedd, rhoddir ystod wych o gyfleoedd i'r 25 o brentisiaid i ddysgu sgiliau newydd a phrofi gweithio i'r Awdurdod Lleol. Mae lansiad y cynllun prentisiaethau hwn yn dilyn penderfyniad y Cabinet ym mis Gorffennaf eleni i ddrynnu £530,000 o arbedion i ddarparu cyfleoedd prentisiaethau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Sefydlwyd yr arian o ganlyniad i danwariant yn y maes hwn, sydd wedi'i ryddhau ar gyfer y rhaglen brentisiaeth newydd.

Dywedodd y Cyng. Colin Gordon, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol "Rwyf wrth fy modd yn croesawu prentisiaid newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Yn ystod eu lleoliadau am ddwy flynedd, byddant yn dysgu llwyth o sgiliau ac ennill profiad hanfodol y gellir eu defnyddio wedyn i sicrhau cyflogaeth hirdymor, yn ogystal â mynd i'r afael â'r prinder sgiliau er mwyn diwallu anghenion y Cyngor yn y dyfodol."

Mae'r rhaglen prentisiaethau'n cefnogi blaenoriaethau cyflogaeth, adfywio, sgiliau a phrentisiaethau Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ac yn cyfrannu at nifer o nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Egluro cronfeydd wrth gefn y Cyngor



"Mae'n bwysig bod pawb yn deall nad ydym yn eistedd ar domen fawr o arian parod y gellid ei defnyddio i fynd i'r afael â'r diffyg yn ein cyllideb – nid dyna sut y mae'n gweithio."

"Y cyngor gan ein Prif Swyddog Cyllid a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yw na ddylid defnyddio cronfeydd wrth gefn i 'lenwi bylchau' yn y gyllideb. Yn hytrach, dylid eu defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf untro."

"Yng Nghaerffili, mae rhan o'n cronfeydd wrth gefn yn cael ei drynnu ar gyfer gwelliannau i dai cyngor ac rydym hefyd yn bwriadu clustnodi swm sylweddol ar gyfer cam nesaf ein rhaglen gwella ysgolion yr 21ain ganrif, a fydd yn cael arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru felly, yn y bôn, rydym yn treblu ein harian."

Dyma'r neges gan Arweinydd y Cyngor mewn ymateb i feirniadaeth bod gan yr awdurdod ormod o arian yn ei gronfeydd wrth gefn. Arian a gynhelir gan gynghorau lleol yw cronfeydd wrth gefn ac maent ar gyfer ymdrin â phethau megis prosiectau cyfalaf mawr, ysgolion, hawliadau yswiriant, rhwymedigaethau hysbys a chynlluniau 'buddsoddi i arbed.' Dim ond ychydig bach o'r cyfanswm sydd heb ei glustnodi, sef arian wrth gefn yr awdurdod ar gyfer digwyddiadau annisgwyl. Mae cronfeydd wrth gefn Awdurdodau

Lleol yn destun archwiliad allanol ac mae angen i Awdurdodau Lleol gadw cronfeydd wrth gefn i gadw'n ddiddled.

Ar 1 Ebrill 2018, roedd y cronfeydd wrth gefn yr oedd modd i'r cyngor eu defnyddio werth £109.796 miliwn (sef £10.8 miliwn yn is na lefel y flwyddyn flaenorol). Mae'r rhan fwyaf o'r cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio wedi'u clustnodi neu mae eu hangen yn y fantolen.



"Mae gan bob cyngor gronfeydd wrth gefn ac mae ein cronfeydd wrth gefn yn unol â'r rhai a ddeler gan awdurdodau maint tebyg ar draws y rhanbarth."

meddai Arweinydd y Cyngor, y Cyng. Dave Poole.



Cynlluniau adfywio cyffrous

Mae tri chynllun sylweddol a allai ddod â chyfleoedd adfywio a buddsoddi i gymunedau bwrdeistref sirol Caerffili wedi cymryd cam ymlaen.

Bydd y prosiectau, a gyflwynir gan Fwrdd Prosiect Adfywio trawsbleidiol y cyngor, yn gweld buddsoddiad cychwynnol o £290,000 er mwyn paratoi cynigion fydd yn barod pan fydd cyllid ar gael.

Y prosiectau cyntaf yw:

Gwaith dichonoldeb i ddatblygu cyfleuster parcio a theithio newydd yn Llanbradach:

Mae'r cynllun hwn yn cynnig cyfleuster parcio a theithio newydd, a fyddai'n cynnwys cyflwyno gwasanaeth rheilffyrdd gwell o dan Drafnidiaeth i Gymru. O dan y cynllun, bydd hefyd arhosfa rheilffordd newydd yn cael ei hadeiladu, gyda'r posibilrwydd o'r tir sydd ar ôl yn rhoi lle i dwf cyflogaeth.

Dyrannwyd £150,000 i'w ddefnyddio fel arian cyfatebol i Gais Trafnidiaeth Rhanbarthol am adnoddau i ymgymryd â gwaith dichonoldeb a dylunio pellach ar y prosiect hwn yn 2019/2020.

Datblygiad Gwesty Lôn y Parc, canol tref Caerffili:

Mae'r cynllun hwn wedi'i anelu at ysgogi'r economi ymwelwyr yng Nghaerffili, gyda chynlluniau eisoes ar waith i ddatblygu gwesty 4 seren, 70 a mwy o ystafelloedd gwely o ansawdd ar dir sy'n eiddo i'r cyngor yn Lôn y Parc yng Nghaerffili a fyddai'n ategu'r hyn sy'n cael ei gynni i ymwelwyr presennol i'r dref.

Mae cyfle wedi codi i brynu 25 Heol Caerdydd sy'n wag ar hyn o bryd, a fyddai'n cynnig gweledded a phresenoldeb llawer gwell i safle'r gwesty yng nghanol y dref.

Dyrannwyd £40,000 i'w ddefnyddio fel arian cyfatebol i sicrhau grant i ganiatáu i'r cyngor brynu'r adeilad. Yna byddai'n fwriad i'r datblygwr ddymchwel yr adeilad wrth ddechrau adeiladu'r gwesty.

Ehangu Parc Busnes Oakdale:

Fel y safle cyflogaeth fwyaf ym mwrdeistref sirol Caerffili, dyrannwyd £100,000 er mwyn sefydlu costau'r isadeiledd angenrheidiol a allai ddarparu mynediad i dir heb ei ddatblygu ar y parc, gan agor y safleoedd hyn i'w datblygu.

Meddai'r Cyng. Sean Morgan, "Mae'n amser cyffrous iawn i fwrdeistref sirol Caerffili, ac mae'r gwaith hwn yn ein gosod ni'n gadarn ar y blaen er mwyn manteisio ar y cyfleoedd cyllido posibl sy'n deillio o'r Cytundeb Dinesig a mentrau eraill sydd â'r nod o hybu ffyniant economaidd ar draws yr ardal."

Sefydlwyd y Bwrdd Prosiectau Adfywio ym mis Mai'r llynedd, gyda chronfa datblygu prosiectau cychwynnol o £300,000 wedi'i gymeradwyo i ganiatáu i'r tîm prosiectau baratoi prosiectau a allai fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o wahanol ffrydiau ariannu allanol. Yn ddiweddar, cymeradwyodd y cyngor ddyraniad pellach o £1.2 miliwn i'r Bwrdd Prosiectau Adfywio i ganiatáu i gynlluniau adfywio pellach gael eu harchwilio.



Mae 'Hwb' arloesol sy'n dod â nifer o sefydliadau gwahanol ynghyd o dan un to wedi cael ei lansio'n ddiweddar.

Mae 'Hwb' Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach yn dod â chydweithwyr o dîm Diogelwch Cymunedol y Cyngor a'r Gwasanaeth Ieuencid, yn ogystal â swyddogion o Heddlu Gwent, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'r cydlynnydd rhanbarthol ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r tîm, sydd wedi'i lleol ym mhencadlys y cyngor yn Nhŷ Penallta yn Ystrad Mynach, yn gweithio ar y cyd er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau ac anhrefn ar draws yr ardal. Mae swyddogion sy'n gweithio o'r 'Hwb' yn gallu rhannu gwybodaeth yn agored ar draws sefydliadau, gan ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael.

Dywedodd y Cyng. Eluned Stenner, "Mae'r 'Hwb' yn ymwneud â chyfeirio ein hadnoddau cyfunol i liniaru problemau sy'n cael eu profi ar draws ein cymunedau, a sicrhau bod yr holl wybodaeth a phwerau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n lleol er mwyn mynd i'r afael ag anhrefn, troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. "Rydym yn croesawu'r dull cydweithredol hon yn gynnes, ac rwy'n siŵr y bydd o fudd sylweddol i'n cymunedau bwrdeistref sirol."

Mwy o bobl, yn fwy egniol, yn fwy aml!

Mae'r cyngor wedi cytuno ar Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Actif uchelgeisiol a fydd yn helpu i gael mwy o bobl, yn fwy heini, yn fwy aml dros y degawd nesaf, ac mae nifer o ddatblygiadau cyffrous ar y gweill a fydd yn arwain at ddarparu cyfleusterau chwaraeon newydd ar draws y fwrdeistref sirol.

Mae maes **3G pob tywydd newydd bron â chael ei gwblhau yn Ysgol Gyfun Coed Duon**. Bydd y cyfleuster o'r radd flaenaf yn darparu arwyneb aml-ddefnydd sy'n addas ar gyfer ei ddefnyddio drwy'r flwyddyn i dimau lleol ac i'r ysgol ei hun. Disgwylir y bydd y cae yn cael ei gwblhau ac ar gael i'w ddefnyddio o fis Medi.

Wrth ysgrifennu, roedd y Cyngor yn aros am benderfyniad gan Lywodraeth Cymru am gyllid i adeiladu **trac athletau newydd yn Ysgol Gynradd Rhiw Syr Dafydd yn Oakdale**. Ar hyn o bryd nid oes gan y fwrdeistref sirol drac rhedeg, felly byddai'r datblygiad yn cael ei groesawu gan ysgolion, clybiau athletau lleol a'r gymuned ehangach.

Mae cais hefyd wedi'i gyflwyno gan Goleg Gwent am arian i ddatblygu **maes 3G newydd yn Ysgol Gyfun Rhisga**. Gallai'r cais partneriaeth hwn ddarparu cyfleuster o'r radd flaenaf yn rhan ddwyreiniol y fwrdeistref sirol, gan ddarparu manteision cymunedol pellgyrhaeddol.

Yn olaf, mae gwelliannau wedi'u cynllunio yng **Nghanolfan Hamdden Trecelyn** i uwchraddio'r ystafell ffitrwydd a'r offer. Mae'r lleoliad poblogaidd, ger Ysgol Gyfun Trecelyn, hefyd yn ymfalchïo mewn pwll nofio mewn dull lagŵn gyda llithren ynghyd ag ystod eang o gyfleusterau mewnol ac allanol.

Croesawyd y datblygiadau gan y Cyng. Nigel George, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol,

"Mae'r pecyn buddsoddi cyffrous hwn yn newyddion gwych i'r ardal ac mae'n dangos ein hymrwymiad i gael mwy o bobl, yn fwy egniol, yn fwy aml."

"Bydd y cynigion hyn, os yn llwyddiannus, yn darparu cyfleusterau chwaraeon hyd yn oed yn well a byddant yn ategu'r maes 3G gwych sydd ar gael i'r gymuned yn **Ysgol Uwchradd Islwyn yn Oakdale**."



Glanhad Mawr y Gwanwyn Caerffili yn dychwelyd am 2019

Mae'r gwanwyn yn prysur agosáu ac yn ei sgil mae Glanhad Mawr y Gwanwyn 2019!

Mae Tîm Glanhau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn galw ar gymunedau lleol i gyfrannu a chymryd rhan yn y prosiect eleni, sy'n gweld cannoedd o wirfoddolwyr yn casglu tunelli o sbwriel a gwastraff.

Mae nifer o sesiynau glanhau cymunedol wedi digwydd yn y fwrdeistref sirol ac mae mwy wedi'u trefnu:

- **Dydd Mercher 27 Mawrth – Pentref Draethen**
- **Dydd Mercher 3 Ebrill – Pentref Tŷ'n-y-coed-cae**
- **Dydd Sadwrn 6 Ebrill – Mynydd Caerffili (bore)**
/ Trem y Castell, Caerffili (prynhawn)
- **Dydd Mercher 10 Ebrill – Pentref Rhydri**

Mae sesiynau yn cael eu trefnu ar y cyd â'r cyngor, Cadwch Gymru'n Ddaclus a Groundwork Cymru.



Am fwy o wybodaeth ar sesiynau a drefnwyd o flaen llaw cysylltwch â **07824 504792** neu e-bostiwrch: Andrew.King@keepwalestidy.cymru, neu i drefnu eich glanhad mawr cymunedol ffoniwch **01443 873737** neu e-bostiwrch: ailgylchu@caerffili.gov.uk

10 cilomedr Caerffili Bryn Meadows yn dychwelyd



Bydd miloedd o redwyr ac ymwelwyr yn dod i lawr i ganol tref Caerffili i gymryd rhan yn ras flynyddol 10 cilomedr Caerffili Bryn Meadows ddydd Sul 19 Mai.

Wedi'i gosod yn erbyn cefnlen drawiadol Castell Caerffili, bydd y ras hon yn arwain cyfranogwyr i ganol y dref ac o'i chwmpas gan basio ystod o dirnodau eiconig fel y cerflun caws mawr a cherflun Tommy Cooper. Bydd y rhedwyr yn dechrau ac yn gorffen eu taith ar Heol y Cilgant gyda ras 2 gilomedr Caerffili yn digwydd yn agos at y parth cychwyn/gorffen yng Nghastell Caerffili.

Gall trigolion lleol ddisgwyl i ffyrdd fod ar gau er mwyn caniatáu i'r ras barhau yn ddiogel. Bydd y cyfyngiadau hyn mewn lle ar y dydd Sul rhwng 7am ac 1pm a dylai unrhyw yrrwr sy'n bwriadu gyrru drwy'r ardal chwilio am ffyrdd eraill. Trefnir y digwyddiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, fe'i noddir gan Bryn Meadows Golf, Hotel a Spa ac fe'i gefnogir gan Athletau Cymru a Chwaraeon Cymru.

Am fwy o wybodaeth am y ras, cau ffyrdd, neu i gymryd rhan yn y ras, ewch i

www.caerphilly10k.co.uk

ebost: 10cilomedr@caerffili.gov.uk Llinell Ddigwyddiadau: **029 2088 0011**

Rhifau Defnyddiol Useful Numbers

PRIF SWITSFWRDD
MAIN SWITCHBOARD
☎ **01443 815588**

Minicom Minicom
☎ **01443 873626**

Rhif argyfwng ar gyfer
Gwasanaethau'r Cyngor:
Emergency Number for
Council Services:
☎ **01443 875500**
(Allan o Oriau yn unig • Out of hours only)

Gwasanaethau
Cymdeithasol i Blant
Children's Social Services
☎ **0808 100 1727**

Gwasanaethau
Cymdeithasol i Oedolion
Adults' Social Services
☎ **0808 100 2500**

BalchderStryd StreetPride
☎ **01443 866566**

Cyngor i Ddefnyddwyr
Consumer Advice
☎ **03454 040506**

Ymholiadau Treth y Cyngor
Council Tax Enquiries
☎ **01443 863002**

Ailgylchu Dodrefn
Furniture Recycling
☎ **01685 846830**

Bathodyn Glas Blue Badge
☎ **01443 866571**

Budd-daliadau Tai
/Treth y Cyngor
Housing & Council
Tax Benefits

Ceisiadau Newydd New Claims:
☎ **01443 866567**
Hawlwyr Presennol Existing Claimants:
☎ **01443 864099**

Rydym yn croesawu
galwadau yn Gymraeg.
We welcome calls in Welsh.

Digwyddiadau / What's On



Cinio Dathlu Sul y Mamau Mothers' Day Celebratory Lunch 31/3/2019 1pm - 3pm Maenordy Llancaiach Fawr Llancaiach Fawr Manor

Rhowch wledd i'ch mam! Cinio tri chwr yn y bwyty tŷ gwydr yn edrych dros Gwm Rhymini a bydd Mamau yn cael mynediad am ddim i'r Maenordy os maent â'u plentyn. Oedolion £19.95, Plant o dan 12 oed: £10.95 (rhaid archebu o flaen llaw).

Treat your Mum! Three course lunch in the conservatory restaurant overlooking the Rhymini Valley and Mum's have free entry to the Manor when accompanied by their child. Adults £19.95, Children under 12: £10.95 (pre-booking essential).

01443 412248

Noson Gomedï y Stiwt Stute Comedy Night

05/04/2019 - 8pm
Sefydliad y Glowyr Coed Duon
Blackwood Miners' Institute

Tretiwch eich hun i noson ddoniol tu hwnt o gomedi gwyh yn un o Nosweithiau Comedi misol Sefydliad y Glowyr Coed Duon. Tocynnau: £11.50 ymlaen llaw / £12.50 ar y drws.

Treat yourself to a hilarious evening of top class comedy at one of Blackwood Miners' Institute's monthly Comedy Nights. Tickets: £11.50 in advance / £12.50 on the door.



01495 227 206

Helfa Drysor Wyau'r Pasg Great Easter Egg Hunt 21/4/2019 10am - 3pm Coedwig Cwmcarn Cwmcarn Forest

Dilynwch y moron o amgylch y cwm er mwyn dod o hyd i Gwningen y Pasg, yn casglu cliwiau wrth i chi fynd! Pan fyddwch yn darganfod Gwningen y Pasg, casglwch eich Wyau Aur i hawlio'ch gwobr wych!! Bydd stepiau a mannau mwdlyd ar hyd y ffordd! Yn addas ar gyfer oeddrannau 3+. £4 am bob plentyn. Nid oes angen archebu lle.

Follow the carrots around the valley to find the Easter Bunny, collecting clues as you go! When you find the Easter Bunny, collect your Golden Egg to claim your egg-citing prize!! Steps and muddy areas will be along the way!! Suitable for ages 3+. £4 per child. No booking required.

01495 272001



Cyfes Heriau Caerffili - Yr Efail Caerphilly Challenge Series - The Forge

11/05/2019 - 7am
Ysgol Gyfun Martin Sant
St Martins Comprehensive



Bydd Cyfes Her Caerffili Nikwax yn dychwelyd ar 11 Mai 2019 - ac eleni mae'n addo bod yn well nag erioed! Gyda theithiau cerdded yn amrywio o 1-5 a 22 milltir, mae her ar gael i bobl o bob oed a gallu. Mae tocynnau ar gyfer y digwyddiad yn costio £2 i £10 ac maent ar gael i'w prynu hyd at y dyddiad cau ar ddydd Mercher 1 Mai 2019.

The Nikwax Caerphilly Challenge Series is set to return on May 11th 2019 - and this year it promises to be better than ever! With walks ranging from 1-5 to 22 miles there is a challenge available for people of all ages and abilities. Tickets for this event cost £2 to £10 and are available to purchase until the closing date on Wednesday 1st May 2019.

www.caerphillychallengeseries.co.uk

Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bosti i gael gwybodaeth am sgysiau, clybiau llyfrau a sesiynau crefft sydd ar y gweill yn eich llyfrgell leol ewch i w

www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau  **www.caerphilly.gov.uk**

Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: ewch i w
For information about upcoming talks, book clubs and craft sessions at your local library visit ww



Gŵyl Fwyd Caerffili Caerphilly Food Festival

11 Mai / May 2019 - 9am

Canol Tref Caerffili •
Caerphilly Town Centre

Bydd dros 100 o stondinwyr yn temptio ymwelwyr gyda samplau o'u nwyddau blasus i'w blasu ac i'w prynu - ynghyd ag amrywiaeth o grefftiau unigryw.

Over 100 stall holders will tempt visitor's taste buds with samples of their delicious goods to try and buy - along with a wide range of unique crafts.

029 2088 0011



Gŵyl Haf Rhisga Risca Summer Festival

06/2019 - 10am

Canol Tref Rhisga
Risga Town Centre

Bydd reidiau ffair, diddanwyr, stondinau bwyd a chreffftau i gyd yn rhannu'r diwrnod gwych hwn. Beth bynnag rydych chi'n penderfynu ei wneud, gallwch chi fod yn sicr bod rhywbeth i'r holl deulu ei fwynhau.

Fair rides, entertainers, food and craft stalls will all form part of a great day out. Whatever you decide to do, you can rest assured there is something for all the family to enjoy.

029 2088 0011

o: digwyddiadau@caerffili.gov.uk
www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 864068
www.caerphilly.gov.uk/events

ents@caerphilly.gov.uk
www.caerphilly.gov.uk or call 01443 864068

Hoffech chi yrfa wobrwyl ym maes gwaith cymdeithasol gyda phlant?

Would you like a rewarding career in social work with children?



"Rwyf wrth fy modd yn gwneud gwir wahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc."

"I love making a real difference to the lives of children and young people."

Ewch i'n gwefan i weld cyfleoedd cyfredol

Ffoniwch 01443 866522 neu ewch i www.caerffili.gov.uk

#TimCaerffili

Visit our website to view current opportunities

Call 01443 866522 or visit www.caerphilly.gov.uk

#TeamCaerphilly

Cyflwyno rheol prawf o breswyliaeth yng Nghanolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref Caerffili

Bydd trigolion sy'n dod â'u gwastraff i unrhyw un o Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ym mwrdeistref sirol Caerffili yn gorfod darparu prawf o breswyliaeth er mwyn defnyddio'r cyfleusterau.

Dyweddodd y Cyng. Nigel George, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth: "Am sawl blwyddyn mae ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref wedi cael eu camddefnyddio gan bobl nad ydynt yn byw yma a chan fasnachwyr y tu allan i fwrdeistref sirol Caerffili, gyda hyd at 50% o'r holl wastraff a dderbyniwyd mewn rhai o'r safleoedd yn dod o ardaloedd eraill yn ne Cymru."

Bydd yn ofynnol bellach i drigolion gyflwyno eu trwydded yrru neu bas bws er mwyn cael mynediad i'n safleoedd.

All Residents will now be required to present their driver's license or bus pass in order to be permitted entry to our sites.

Parhaodd: "Rydym am roi terfyn ar ein trigolion yn gorfod talu'r bil ar gyfer gwastraff pobl nad ydynt yn byw yma a bydd y rheolau newydd hyn yn dod â ni yn unol â'r rhai a weithredir gan ein Cyngorau cyfagos."

Proof of residency rule introduced at Caerphilly's Household Waste Recycling Centres (HWRC's)

Residents depositing waste at any of Caerphilly county borough's Household Waste Recycling Centres will now have to provide proof of residency in order to use the facilities.

Cllr Nigel George, Cabinet Member for Public Services said: "For several years our Household Waste Recycling Centres have been abused by non-residents and traders from outside of Caerphilly county borough, with up to 50% of all waste received at some of the sites coming from other areas within South Wales."



He continued: "We want to put an end to our residents having to foot the bill for non-residents waste and these new rules will bring us in line with those implemented by our neighbouring Councils."